## Cylch Gorchwyl:
## Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU A DIWYLLIANT

Yn adrodd i'r: Cyngor

Yn cwrdd: 3 neu 4 gwaith y flwyddyn (i'w gytuno gyda Chadeirydd y Pwyllgor)

*Adolygwyd y cylch gorchwyl ddiwethaf: Mehefin 2021; diwygiwyd ddiwethaf: Chwefror 2024; ac i'w adolygu nesaf: Gorffennaf 2024*

| Aelodau: | Yn gweinyddu: |
|---|---|
| • 1 Aelod Annibynnol (Cadeirydd), o blith aelodau'r Cyngor<br>• 4 Aelod Annibynnol, y gall hyd at ddau ohonynt fod wedi'u cyfethol neu beidio â bod yn aelodau o'r Cyngor<br>• Cadeirydd y Cyngor<br>• Yr Is-Ganghellor<br>• 1 Aelod o'r Senedd<br>• 1 Aelod o'r Staff Anacademaidd<br>• 1 Aelod o blith y Myfyrwyr<br><br>10 aelod.<br><br>Cworwm: 5 aelod, a'r mwyafrif yn Aelodau Annibynnol. | • Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, neu enwebai<br>• Ysgrifennydd y Brifysgol<br><br>Fel y gwêl y Cadeirydd yn dda, gwahoddir swyddogion eraill y Brifysgol i gyfarfodydd, fel y bo'n briodol. |

Cylch gwaith:

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio'n cyflawni gwaith craffu ac yn cynghori'r Cyngor ar faterion sy'n cynnwys llywodraethu'r sefydliad; llywodraethu gwybodaeth; adnoddau dynol a datblygu staff; cydraddoldeb ac amrywioldeb; iechyd a diogelwch; yr iaith Gymraeg; a chydymffurfio â deddfwriaeth, ac â gofynion cyffredinol y llywodraeth, CCAUC, a rheoleiddwyr eraill.

Cylch gorchwyl:

1. Ystyried ac argymell i'r Cyngor eu cymeradwyo:

    a. Strategaethau'n ymwneud â materion sydd o fewn cwmpas gwaith y Pwyllgor, onid ymdrinnir â hwy yn rhywle arall yn y cylch gorchwyl hwn;
    b. Polisïau y mae'n ofynnol eu cymeradwyo ar lefel llywodraethu am resymau cyfreithiol neu reoleiddiol, sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywioldeb; a'r iaith Gymraeg;
    c. Cynigion i gyflwyno cais i'r Cyfrin Gyngor i newid Siarter ac Ystatudau'r Brifysgol, a adolygir o leiaf bob pum mlynedd;
    d. Ychwanegu neu ddileu Ordinhadau, neu ddiwygiadau i'r Ordinhadau, a adolygir o leiaf bob dwy flynedd;
    e. Diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â'r Cyngor a'i is-bwyllgorau, a adolygir o leiaf bob pum mlynedd;
    f. Rheoliadau anacademaidd newydd a / neu ddiwygiedig a'r cyfryw ddogfennau eraill sy'n ymwneud â llywodraethu'r Brifysgol;
    g. Diwygiadau i Gyfansoddiad Sefydliad y Myfyrwyr, a adolygir o leiaf bob pum mlynedd;

h. Diwygiadau i bolisïau'r Brifysgol ar Atal Twyll a Chamarfer, Atal Llwgrwobrwyo, a Datgelu er Budd y Cyhoedd;
i. Rhestr fer o unigolion addas i ddyfarnu iddynt Wobrau er Anrhydedd y Brifysgol, yn seiliedig ar restr hir wedi'i llunio gan Weithrediaeth y Brifysgol;
j. Diddymu Gwobr er Anrhydedd a ddyfarnwyd eisoes gan y Brifysgol;
k. Penodi unigolion yn Gyfarwyddwyr ar is-gwmni i'r Brifysgol, ac eithrio aelodau o'r staff neu aelodau annibynnol sy'n gwasanaethu ar y Cyngor neu ar bwyllgor;
l. Cyflwyniadau i'r llywodraeth, CCAUC a rheoleiddwyr eraill ar bolisïau ac ymgynghoriadau, lle y gwahoddir ymatebion gan y corff llywodraethu;
m. Cydnabod yn ffurfiol yr Undebau Llafur unigol;
n. Y Cytundeb Perthynas rhwng y Brifysgol a Sefydliad y Myfyrwyr; a'r
o. Adroddiad blynyddol ar gydymffurfiaeth y sefydliad â gofynion Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 (y ddyletswydd 'Atal').

2. Ystyried a bod ag awdurdod i gymeradwyo ar ran y Cyngor:

a. Polisïau'n ymwneud â materion sydd o fewn cwmpas gwaith y Pwyllgor, y mae'n ofynnol eu cymeradwyo ar lefel llywodraethu am resymau cyfreithiol neu reoleiddiol, onid ymdrinnir â hwy yn rhywle arall yn y cylch gorchwyl hwn neu onid ydynt yn rhan o'r Ordinhadau;
b. Enwebiadau gan y Brifysgol ar gyfer unigolion addas i dderbyn Anrhydeddau allanol, yn seiliedig ar argymhelliad gan Weithrediaeth y Brifysgol;
c. Penodi aelodau o staff neu aelodau annibynnol sy'n gwasanaethu ar y Cyngor neu ar bwyllgor yn Gyfarwyddwyr ar is-gwmni i'r Brifysgol;
d. Adroddiad blynyddol y Brifysgol ar weithgareddau Iechyd a Diogelwch yn y sefydliad, i'w gyflwyno i'r Cyngor er gwybodaeth;
e. Penodi cynrychiolwyr y Brifysgol ar gyrff allanol; a
f. Diwygiadau i'r Cytundeb Cydnabod rhwng y Brifysgol a'r Undebau Llafur Cydnabyddedig.

3. Derbyn adroddiadau er gwybodaeth a chynghori'r Cyngor a / neu'r Is-Ganghellor fel y bo'n briodol ynghylch:

a. Cynigion i'r Senedd ddiwygio'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â'r corff llywodraethu academaidd a'i is-bwyllgorau, a adolygir o leiaf bob pum mlynedd;
b. Dangosyddion Perfformiad allweddol a metrigau eraill i fonitro perfformiad y sefydliad ym meysydd gweithredu'r Brifysgol sydd o fewn cwmpas gwaith y Pwyllgor;
c. Trefniadau cynllunio olyniaeth mewn perthynas ag aelodau Gweithrediaeth y Brifysgol ac Ysgrifennydd y Brifysgol (fel Clerc y Cyngor);
d. Adroddiadau'n crynhoi pob digwyddiad, damwain ac anaf RIDDOR, ac unrhyw fater arall o'r fath sydd o fewn cwmpas gwaith y Pwyllgor;
e. Adroddiad eilflwydd y Syrfëwr Yswiriant a roddir i'r Brifysgol;
f. Adroddiadau'n ymwneud â diogelu rhag ymbelydredd, diogelwch tân, asbestos, addasu genynnau, a defnyddio bywleiddiaid yn y Brifysgol;
g. Adroddiad blynyddol ar faterion a ystyriwyd o dan weithdrefn Cwynion Cyhoeddus y Brifysgol;
h. Datganiad blynyddol y Brifysgol ar Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu mewn Pobl;
i. Newidiadau i ddeddfwriaeth ac arfer da ym meysydd gweithredu'r Brifysgol sydd o fewn cwmpas gwaith y Pwyllgor;
j. Aelodau o'r staff academaidd y dyfarnwyd iddynt y teitl Emeritws perthnasol, gan gynnwys pan fo'r cyfryw deitlau wedi'u dyfarnu'n ôl-weithredol;
k. Penodi Athrawon Ymchwil, staff er Anrhydedd a staff Gwadd gan yr Is-Ganghellor;
l. Penodi staff uwch yn y Brifysgol;
m. Prosesau'n ymwneud â chwynion, disgyblu, a datgelu gwybodaeth i'r cyhoedd; a
n. Gweithrediadau'r Brifysgol o ran:

i. Adnoddau Dynol a Datblygu Staff, gan gynnwys datblygu arweinyddiaeth;
ii. Iechyd a Diogelwch;
iii. Llywodraethu Gwybodaeth, gan gynnwys y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Rhyddid Gwybodaeth;
iv. Moeseg Ymchwil;
v. Cydymffurfio â gofynion y llywodraeth, CCAUC, a rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys Fisâu a Mewnfudo y DU, a lles anifeiliaid.

Gall y Pwyllgor sefydlu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen am gyfnodau penodol i gyflawni unrhyw rai o'r cyfrifoldebau uchod ar ei ran. Bydd Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor, neu'r Is-Ganghellor yn cytuno ar aelodaeth a threfniadau adrodd y cyfryw Grwpiau Gorchwyl a Gorffen, yn unol â'r gofynion busnes.

---

<u>Gweithredu</u>

Bydd y pwyllgor yn cytuno ar adroddiad blynyddol ac yn ei gyflwyno i'r Cyngor, a fydd yn amlinellu prif weithgareddau'r pwyllgor yn ystod y flwyddyn academaidd a aeth heibio, gyda phwyslais penodol ar y penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor ar ran y corff llywodraethu yn unol â'r awdurdodau dirprwyedig y darperir ar eu cyfer yn y cylch gorchwyl hwn.

Gall y pwyllgor ystyried materion a gyfeiriwyd ato gan y Cyngor, y Senedd (drwy'r Is-Ganghellor), neu Weithrediaeth y Brifysgol.

Pan fo'r pwyllgor yn cytuno ar argymhelliad i'r Cyngor sy'n ymwneud â mater academaidd, cyflwynir yr argymhelliad yn y lle cyntaf i'r Senedd er mwyn iddi wneud sylwadau arno cyn i'r Cyngor ei ystyried. Yr Is-Ganghellor fydd yn penderfynu a yw argymhelliad yn ymwneud â mater academaidd ai peidio ac a ddylid ymgynghori â'r Senedd.